Beth yw'r materion allweddol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Wrecsam? -

Pryd cafodd yr arolwg ei gynnal?

Rhagfyr 2011 – Chwefror 2012

Beth oedd diben yr ymgynghoriad hwn?

Gofyn i bobl leol pa bethau y mae'n rhaid eu gwella fwyaf, ledled y Fwrdeistref Sirol. Defnyddiwyd y sylwadau barn i lywio maes cynllunio a rhoi trefn flaenoriaeth ar y gwasanaethau a'r prosiectau hynny y bydd y Cyngor yn eu darparu.

Wnaethoch chi roi adborth i'r rhai a gymerodd ran?

Cafodd yr adborth ei gynnwys yng Nghynllun y Cyngor ac fe'i rhoddwyd i aelodau panel Llais y Bobl. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Sut rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghori?

Trwy gyfrwng erthygl nodwedd yn yr 'Evening Leader', rhoi copïau yn y dderbynfa, y rhyngrwyd, gweplyfr, trydar ac yn fewnol a thrwy'r fewnrwyd a'r bwletin dydd Gwener.

Sawl ymateb ddaeth i law?

268 ymateb

Sut gwnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddefnyddio'r canlyniadau a pha newidiadau gaiff eu gwneud o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn, os gwneir rhai o gwbl?

Yn ystod Gaeaf 2011 fe gynhaliwyd arolwg ar y 'Materion Allweddol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Wrecsam' ac fe gafodd ei hysbysebu trwy erthygl nodwedd yn y 'Wrexham Evening Leader' a hysbysebion yn swyddfeydd y Cyngor, y wefan a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Cafwyd 268 o ymatebion.

Yn ôl yr ymatebion a gafwyd, dyma'r meysydd y dylid eu gwella fwyaf:

1. Gobeithion cael swydd (51.8%)
2. Tai gweddus fforddiadwy (39.0%)
3. Atgyweirio ffyrdd a phalmentydd (35.9%)
4. Lefelau cyflogau a chostau byw (33.1%)
5. Gweithgareddau i Bobl Ifanc yn eu Harddegau (32.3%)

Mae'r meysydd uchod, o un i bedwar, yn cael eu crybwyll yn y cynllun sy'n cael ei ddatblygu gan y Cyngor. O ran atgyweirio ffyrdd a phalmentydd mae'r costau'n cynyddu o hyd, ond nid yw'r gyllideb wedi cynyddu. Fel y cyfryw, bydd rhaglen dreigl ailadeiladu ac atgyweirio yn cael ei chynnal ar y llwybrau teithio hynny sy'n gwaethygu ac sydd bellach mewn cyflwr gwael a'n bwriad ni fydd ceisio cynnal a chadw ffyrdd yn hytrach na gwella drwyddo draw safon rhwydwaith ffyrdd y Fwrdeistref Sirol.

Gweithgareddau i bobl ifanc yn eu harddegau oedd yr unig faes a ddaeth i'r amlwg na soniwyd amdano yng Nghynllun Drafft y Cyngor. Fodd bynnag roedd Senedd yr Ifanc wedi'i grybwyll ac roedd yr

ymgynghoriad ar y cyd-gynllun wedi sôn amdano hefyd. Mae'r camau gweithredu priodol o'r Cyd-gynllun wedi cael eu hamlygu o dan ganlyniad i Bobl "Pe1 - Y plant a'r bobl ifanc i gyd gyda dyheadau cadarnhaol, yn dysgu ac yn cyflawni eu potensial'.

O ran y meysydd hynny sydd angen eu gwella fwyaf, bernid mai tai fforddiadwy oedd y maes pwysicaf un ymysg y bobl hynny a oedd yng nghategori oedran 19-30, (58.3%), ymysg merched (54.7%), ac ymysg y bobl hynny a oedd naill ai'n byw y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol (56.3%) neu oddi mewn i ardaloedd gwledig y Fwrdeistref Sirol (51.6%). Roedd y bobl hynny sydd dros 61 oed (60%) yn fwy tebygol o grybwyll darpariaeth addysg.

ysmygu, sy'n faterion allweddol yn y Cyd-gynllun er mai dim ond alcohol a baco sydd wedi cael eu hamlygu yng Nghynllun y Cyngor am fod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi rhoi'r flaenoriaeth i'r materion hyn; Gwella Addysg y sonnir amdano yng nghanlyniad â blaenoriaeth Pe1; Yr Iaith Gymraeg, y sonnir amdani yng nghanlyniad â blaenoriaeth Pe6; Trafnidiaeth fforddiadwy, sy'n cael sylw yn llinynnau trafnidiaeth gyhoeddus canlyniad â blaenoriaeth Pl4, a'r enw da sydd gan bobl ifanc sydd heb gael ei grybwyll yn y cynllun hwn ond sy'n cael ei drin a'i drafod ymhellach gan is-grŵp y Senedd.

Gofynnir i'r bobl hynny sy'n cymryd rhan mewn ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu, ddarparu gwybodaeth am gydraddoldebau. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddi ar gyfer dau bwrpas - sef deall pwy sydd (a phwy nad yw) yn cymryd rhan mewn ymarferion o'r fath, a dadansoddi'r ymatebion er mwyn tynnu sylw at y gwahaniaethau mewn barn a phrofiad sydd gan y gwahanol gymunedau. Nid yw gwybodaeth am gydraddoldebau'n cael ei chasglu'n gysgon ar hyn o bryd. Nid yw chwaith yn cael ei chwblhau gan ymatebwyr pan ofynnir iddynt wneud hynny, nac yn cael ei dadansoddi mewn perthynas ag ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu. Felly mae hwn yn faes y mae'n rhaid ei wella yn ystod oes y Cynllun hwn gan y Cyngor.

Beth yw'r materion pwysig I Fwrdeistref Sirol Wrecsam?

Gan feddwl yn gyffredinol, pa rai o'r isod fyddech chi'n ystyried sydd fwyaf pwysig I wneud rhywle yn lle dai I fyw?



Gan ystyried Bwrdeistref Sirol Wrecsam, pa rai o'r isod ydych chi'n ystyried eu bod angen gwella fwyaf?



Ar y cyfan, pa mor fodlon neu nfodlon ydych chi a Bwrdeistref Sirol Wrecsam fell le I fyw? -